# Adroddiad Cyfarwyddwr Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru (WFAC) – Gorffennaf 2022

Adroddiad Cyfarwyddwr Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru (WFAC) – Gorffennaf 2022

## 1. Crynodeb

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb byr o'r pynciau a gyflwynwyd gan y Prif Weithredwr yng nghyfarfod diwethaf y Bwrdd, a gynhaliwyd ar 15 Mehefin 2022, yn ogystal â gweithgareddau eraill sy'n berthnasol i gylch gwaith yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) yng Nghymru.

1.2 Gwahoddir aelodau'r Pwyllgor i wneud y canlynol:

- nodi'r diweddariad
- gwahodd y Cyfarwyddwr i ymhelaethu ar unrhyw faterion i'w trafod ymhellach

## 2. Adroddiad y Prif Weithredwr i'r Bwrdd

2.1 Daeth Adroddiad y Prif Weithredwr (FSA 22-06-03) (Saesneg yn unig) i law'r Bwrdd.

## 3. Ymgysylltu Allanol gan Uwch Reolwyr yr ASB yng Nghymru

3.1 Ers cyfarfod WFAC diwethaf ar thema benodol a gynhaliwyd ar 21 Ebrill, mae uwch reolwyr wedi cymryd rhan yn y cyfleoedd ymgysylltu allanol canlynol:

- **26 Ebrill** – Cadeirydd, Susan Jebb, yn cwrdd â'r Dirprwy Weinidog dros Iechyd Meddwl a Lles, Lynne Neagle. Ymhlith y pynciau a drafodwyd oedd materion labelu sy'n deillio o'r rhyfel yn Wcráin a Strategaeth newydd yr ASB.
- **27 Ebrill** – rhoi i elusennau: Offer TG. Fe wnes i a Julie Pierce roi dyfeisiau wedi'u hailgylchu i elusennau yng Nghaerdydd fel rhan o brosiect ehangach yr ASB ar y cyd â Computers for Charity. Roedd 4 elusen yn ddiolchgar am gael 40 gliniadur a 40 ffôn clyfar: Eglwys Noddfa, Eglwys Llanfair, Oasis a Llamau.
- **17 Mai** – Cyfarfod Bwyd Diogel, Cynaliadwy a Dilys Cymru (SSAFW) – Ymhlith yr eitemau a drafodwyd oedd papur briffio ar strategaeth newydd yr ASB, a gafodd gefnogaeth gan yr aelodau ac sydd wedi rhoi cyfle i rwydweithio a thrafod ymhellach gyda sefydliadau sydd â buddiant ar y cyd.
- **16 Mehefin** – Cynhadledd flynyddol Sefydliad Siartredig Safonau Masnach (CTSI) ym Mryste. Cyflwynais Wobr Bwyd y CTSI i Felicity Broder o Brighton a Hove, a Gwobr Steve Whitehouse i Sarah Thomas-Grant o Rondda Cynon Taf am fod y fyfyrwraig orau ym maes safonau bwyd yng Nghymru. Yn y digwyddiad, lansiodd Dilys Harris o Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a Gr?p Bwyd Gwent Fwyaf ganllawiau amlieithog ar alergenau mewn ieithoedd ychwanegol. Rydym yn falch o fod wedi cefnogi cynhyrchu'r adnodd hwn, a gafodd groeso mawr .
- **21 Mehefin** – cyfarfod â Llywodraeth Cymru, Cyfarwyddwyr Diogelu Cyhoedd Cymru a phartneriaid eraill, cyfarfod cadarnhaol iawn ar y lefel uchaf. Roedd hefyd gyfarfod

gweithredol dilynol gydag arweinwyr strategol i drafod samplu a'r prosiect data i gymryd lle System Monitro Gwaith Gorfodi Awdurdodau Lleol (LAEMS).

- **27 Mehefin** – Digwyddiad ymgysylltu ag awdurdodau lleol mewn perthynas â'r Model Gweithredu Hylendid Bwyd. Cynhaliwyd gweminar ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon er mwyn iddynt allu rhannu eu barn a'u mewnwelediad ar y prif ddull gweithredu a'r egwyddorion arfaethedig ar gyfer adolygu'r Model Gweithredu Hylendid Bwyd. Gwnaeth dros 490 o swyddogion awdurdodau lleol gymryd rhan yn y digwyddiad. Byddwn yn defnyddio adborth y digwyddiad i helpu i ddatblygu cynigion manylach ar gyfer moderneiddio'r model.
- **5 Gorffennaf** – Cyfarfod Gr?p Cynghori ar Ddiogelu Iechyd y Prif Swyddog Meddygol.

**3.2 Rhagolwg ar waith ymgysylltu allanol:**

- **18-21 Gorffennaf** – Bydd gan yr ASB yng Nghymru stondin yn Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru a byddaf yn mynd gyda Chadeirydd yr ASB ar un o'r dyddiau hyn.
- **30 Gorffennaf – 6 Awst** – Bydd gan yr ASB yng Nghymru stondin yn yr Eisteddfod Genedlaethol, Tregaron.
- **4 Awst** – Cyfarfod cyswllt chwarterol yr ASB yng Nghymru a Llywodraeth Cymru
- **12 Medi** – cyfarfod Rheoleiddwyr yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA)

# 4. Materion o ddiddordeb i WFAC sy'n ymwneud â'r ASB yng Nghymru

**Adroddiad Blynyddol o Safonau Bwyd**

4.3 Ar 27 Mehefin, lansiodd yr ASB a Safonau Bwyd yr Alban Ein Bwyd: Adolygiad blynyddol o safonau bwyd ledled y DU, sef adolygiad manwl o'n safonau bwyd. Bydd yr adolygiad hwn yn cael ei gyhoeddi bob blwyddyn, fel rhan o'n hymrwymiad parhaus i dryloywder ac er mwyn sicrhau bod aelodau'r Senedd, partneriaid masnachu a defnyddwyr gartref a thramor yn gallu parhau i fod yn ymwybodol o'r newidiadau i'n system fwyd a'r heriau sy'n ei hwynebu. Cynhaliwyd digwyddiad lansio yn y Senedd ar 6 Gorffennaf.

# 5. Ymgynghoriadau

**5.1 Ymgynghoriadau sydd ar agor:**

- **Galwad am Dystiolaeth: Defnyddio plastig wedi'i ailgylchu sy'n tarddu o gynlluniau plastig sy'n diweddu yn y môr/cynlluniau cylchdro a chasgliadau amgylcheddol tebyg, mewn cynhyrchion deunyddiau sy'n dod i gysylltiad â bwyd** – Ymgynghoriad sy'n galw am dystiolaeth mewn perthynas â'r modd y mae gweithredwyr busnesau'n bwriadu cynnal eu hasesiad risg eu hunain i bennu defnydd diogel o blastig wedi'i ailgylchu sydd wedi dod o'r amgylchedd agored (y môr, 'yn diweddu yn y môr' neu'r tir), mewn cynhyrchion deunyddiau a ddaw i gysylltiad â bwyd, neu dystiolaeth gan fusnesau sy'n gwneud hynny ar hyn o bryd.

  **Dyddiad lansio:** 21 Mawrth 2022
  **Dyddiad cau:** 20 Medi 2022

- **Diwygiadau i Reoliad a Ddargedwir 2019/1793: Rheolaethau a Gynhelir ar Fwyd a Bwyd Anifeiliaid a Fewnforir nad ydynt yn Dod o Anifeiliaid** – Ymgynghoriad ar ddiwygiadau rheolaidd arfaethedig i Reoliad a Ddargedwir 2019/1793 sy'n cymhwyso cynnydd dros dro mewn rheolaethau swyddogol ac amodau arbennig sy'n llywodraethu

mynediad bwyd a bwyd anifeiliaid penodol nad ydynt yn dod o anifeiliaid i Brydain Fawr o wledydd penodol.

**Dyddiad lansio:** 14 Ebrill 2022
**Dyddiad cau:** 7 Gorffennaf 2022

- **Pwerau Ymchwilio Uwch i'r Asiantaeth Safonau Bwyd** – Ymgynghoriad ar gynlluniau'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) i geisio pwerau ymchwilio uwch ar gyfer yr Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd trwy reoliadau.

  **Dyddiad lansio:** 26 Mai 2022
  **Dyddiad cau:** 18 Awst 2022

- **Cyflenwi cig ac offal Qurbani yn ystod Eid al-Adha yng Nghymru a Lloegr** – Ymgynghoriad ar newidiadau i ofynion oeri cig ac offal Qurbani a gyflenwir gan ladd-dai yng Nghymru a Lloegr yn ystod cyfnod Eid al-Adha.

  **Dyddiad lansio:** 22 Mehefin 2022
  **Dyddiad cau:** 11 Medi 2022

### 5.2 Edrych tua'r dyfodol:

- Mae Defra, yr ASB a Safonau Bwyd yr Alban yn bwriadu lansio ymgynghoriad 12 wythnos ledled y pedair gwlad ar newidiadau arfaethedig i Reoliadau Bara a Blawd 1998 – wedi'i gynllunio ar gyfer diwedd haf/dechrau hydref 2022.
- Mae'r ASB yn bwriadu lansio tri ymgynghoriad wyth wythnos ar ffactorau cyfreithlon eraill y ceisiadau bwydydd newydd a chyflasynnau, GM ac ychwanegion bwyd anifeiliaid sydd wedi'u cynnwys yn yr ail gyfres o geisiadau cynhyrchion wedi'u rheoleiddio. Disgwylir i'r cyntaf o'r ymgynghoriadau hyn gael ei lansio ddiwedd haf/dechrau hydref 2022.
- Mae'r ASB yn bwriadu lansio ymgynghoriad ar ddeddfwriaeth arfaethedig i fynd i'r afael â diffygion yn sgil ymadawiad y Deyrnas â'r Undeb Ewropeaidd (UE) yng nghyfraith yr UE a ddargedwir ym meysydd hylendid a diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid. Disgwylir i'r ymgynghoriad gael ei lansio ym mis Gorffennaf 2022.
- Mae'r canllawiau i awdurdodau lleol ar safleoedd cymeradwy wedi'u diweddaru i adlewyrchu'r sefyllfa gan fod y Deyrnas Unedig wedi ymadael â'r UE. Mae'r ffurflenni cymeradwyo enghreifftiol hefyd wedi'u diwygio. Bydd hwn yn cael ei gyhoeddi yn ddiweddarach eleni.
- Mae'r ASB yn bwriadu lansio ymgynghoriad deuddeg wythnos ar y diwygiadau arfaethedig i'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd Anifeiliaid a Chanllawiau Ymarfer Cyfraith Bwyd Anifeiliaid. Disgwylir i'r ymgynghoriad gael ei lansio yn ystod hydref 2022.

**Nathan Barnhouse**
**Cyfarwyddwr yr ASB yng Nghymru**